# Y CABINET DYDD MAWRTH, 20 IONAWR 2026

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, Craig ab Iago, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Robert John Jones (Rheolwr Cludiant Addysg), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol), Arwel Evans (Rheolwr Caffael), Miriam Hughes (Ymgynghorydd Caffael), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. R Medwyn Hughes a’r Cyng. Huw Wyn Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol gan y Cyng. Nia Jeffreys mewn perthynas ag eitem 6, ac fe adawodd y cyfarfod.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Nia Jeffreys mewn perthynas ag eitem 9. Nid oedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawsant y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

## 6. POLISI CLUDIANT ADDYSG (DRAFFT)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

**PENDERFYNIAD**

Rhoddwyd caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg (Drafft).

**TRAFODAETH**

Pwysleisiwyd mai Polisi ar ei ffurf drafft sydd yma, gan mai gofyn i'r Cabinet am hawl i gynnal ymgynghoriad yw diben dod a'r eitem i'r cyfarfod hwn.
Datganwyd bod y Polisi presennol ar waith ers 2009 felly adnabuwyd ei bod felly'n amserol i ddatblygu polisi newydd.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Seddi Gweigion gan egluro y cynigir sedd wag i ddysgwyr nad oes ganddynt hawl i gludiant di-dâl os bydd argaeledd sedd ar gludiant. Ychwanegwyd bod gofynion deddfwriaethol yn ei gwneud yn anoddach i gynnig y trefniant hwn bellach.

Esboniwyd bod cludiant wedi bod yn cael ei ddarparu i ysgolion ffydd yn unol â'r gofyn statudol, ond nad oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y polisi presennol. Bydd y Polisi (Drafft) gerbron yn cynnig yr eglurder o ran y cludiant a gynigir.

Amlygwyd bod y Cyngor yn darparu cludiant dewisol i ddysgwyr ôl-16 llawn amser ar hyn o bryd, a manylwyd ar gynnig y Polisi (Drafft) i ddarparu cludiant i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs. Ymhelaethwyd ar y cynnig gan nodi nad yw'n cyfyngu ar opsiynau dysgwyr o ran y cyrsiau sydd ar gael iddynt, ond ei fod yn sicrhau mai cludiant i'r safle agosaf sy'n cynnig y cwrs hwnnw yn unig a gaiff ei gynnig.

Nodwyd bod y Polisi (Drafft) hefyd yn cynnig mwy o wybodaeth am breswyliad deuol, gan ategu y bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad.

Pwysleisiwyd nad oes unrhyw newid i'r drefn cludiant i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Polisi (Drafft) hwn, nac i'r drefn o fesur pellter teithio i dderbyn cludiant am ddim.

Cyfeiriwyd at y ddwy ran sydd i'r Polisi, gan nodi nad oes newid o ran y gofynion statudol i ddarparu cludiant addysg y mae'n rhaid eu cyfarch. Adnabuwyd mai addasiadau a newidiadau i elfennau'r Polisi sydd o dan ddisgresiwn yr Awdurdod a gaiff eu cynnig yma.
Datganwyd y bydd y Polisi (Drafft) hwn yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi yn dilyn yr ymgynghoriad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Holwyd am eglurder o ran y dull mesur pellter teithio, a soniwyd am addasrwydd y lonydd a'r llwybrau cerdded y mae disgwyl i ddysgwyr eu defnyddio er mwyn cyrraedd yr ysgol. Cadarnhawyd y caiff pellter ei fesur drwy system fapio (GIS) a'i fod felly'n gyson i bob dysgwr. Ychwanegwyd bod system i asesu addasrwydd ffyrdd a llwybrau yn ogystal, ac y buasai cludiant yn cael ei ddarparu os nad yw llwybr yn addas. Anogwyd unrhyw un sy'n wynebu rhwystrau o ran cludiant i ymateb i'r ymgynghoriad, fel bod posib i'r sylwadau hynny gael eu hystyried.
- Datganwyd cefnogaeth i lwybr y Polisi (Drafft) hwn, gan nodi ei fod yn ffordd ddemocrataidd o fabwysiadu'r ddogfen. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i drigolion ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- Sicrhawyd nad oes effaith yn cael ei ragweld ar gostau byw yn deillio o'r Polisi (Drafft) hwn.
- Nodwyd nad yw'r Polisi (Drafft) yn cyfeirio'n fanwl at drefniadau hebryngwyr i ddysgwyr ADY gan fod hynny'n digwydd drwy Banel yn unol â gofynion Cynllun Datblygu Unigol y dysgwr.
- Holwyd os oes trafodaeth wedi ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru am y Cynllun Seddi Gweigion, gan mai eu canllawiau hwy sy'n gorfodi'r newid. Cadarnhawyd bod y Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori ar ganllawiau newydd cludiant addysg, a bod y Cyngor wedi cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw yn nodi'r rhwystrau i gynnig hyblygrwydd o ran hwyluso teithio i'r ysgol. Ychwanegwyd nad yw'r Llywodraeth wedi adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad eto.

## 7. STRATEGAETH CAFFAEL 2026 - 2031

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a chymeradwywyd y Strategaeth Caffael 2026 – 2031 (Atodiad 1).

Rhoddwyd yr hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol wneud addasiadau gweithredol i'r Strategaeth fel mae'r angen yn codi i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau statudol (megis canllawiau statudol y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fanylu ar y broses Caffel sef sicrhau nwyddau, gwasanaethau neu waith ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Amlygwyd ei fod yn rhan allweddol o weithgarwch y Cyngor.

Datgelwyd pwysigrwydd bod gan y Cyngor Strategaeth Caffael. Ymhelaethwyd gan nodi y bydd yn ofyn statudol yn y dyfodol agos, ac y mae'n sicrhau y caiff y

Cyngor y gwerth gorau am arian cyhoeddus, ac yn sicrhau'r ansawdd gorau i bobl Gwynedd.
Adnabuwyd bod y Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn y flwyddyn ar weithgarwch caffael. Pwysleisiwyd yr angen i gael y nwyddau, gwasanaethau neu waith am y pris gorau, gan sicrhau'r ansawdd gorau yn ogystal. Amlygwyd bod hefyd angen cyfarch amcanion eraill, megis datgarboneiddio a sicrhau gwerth cymdeithasol - mae'r Strategaeth yn gosod y cyfeiriad a'r weledigaeth er mwyn galluogi i hyn ddigwydd.
Cyfeiriwyd at y 7 maes blaenoriaeth a gaiff eu cynnwys yn y Strategaeth, gan amlygu fod pob maes blaenoriaeth wedi'i adnabod fel maes allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd. Rhestrwyd y meysydd hyn a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cadarnhawyd bod y Strategaeth Caffael wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref 2025, a phenderfynodd y Pwyllgor Craffu dderbyn y Strategaeth a'r adroddiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Diolchwyd am y strategaeth a gofynnwyd sut y mae'r Cyngor yn mesur gwerth caffael. Nodwyd bod gan yr adran fesur o ran y budd lleol, a gaiff ei fesur yn rheolaidd drwy drefniadau herio perfformiad. Ychwanegwyd bod y Strategaeth yn rhoi cyfle i edrych ar feysydd eraill ar draws y Cyngor lle mae caffael yn effeithio arnynt, a datblygu mesurau i gyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny. Amlygwyd bod gwerth am arian yn ffactor yma, yn ogystal â gwerth cymdeithasol, sy'n cynnwys nifer o fesurau pellach. Nodwyd bod y Strategaeth yn rhoi cyfle i fesur gwerth caffael mewn amryw o feysydd ar draws y Cyngor.
- Holwyd am ddefnydd y Gymraeg i gyflenwyr, gan amlygu bod y mater hwn wedi'i godi gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ogystal. Datganwyd bod cyngor cyfreithiol wedi ei dderbyn, a bod hwnnw'n cael ei weithredu i'r eithaf. Mae'r Gymraeg yn ofynnol mewn nifer o gontractau, felly nodwyd bod bwriad i ddilyn hynny cyn belled ag sy'n bosib.
- Cyfeiriwyd at y 7 blaenoriaeth gan gwestiynu a oes prif flaenoriaeth o'r 7 a nodwyd. Datganwyd mai'r brif flaenoriaeth yw i *"wneud y mwyaf o werth y bunt yng Ngwynedd"* fel y nodir ar flaen y Strategaeth, a soniwyd bod y 7 blaenoriaeth hyn yn unigryw i Wynedd.
- Gofynnwyd a oes unrhyw densiynau'n codi rhwng y blaenoriaethau. Datganwyd bod tensiynau yn anorfod ac yn rhywbeth fydd rhaid i'r timau categori caffael fod yn wyliadwrus ohono.
- Holwyd sut y mae rhwystrau pellach am gael eu hadnabod a'u lleihau wrth symud ymlaen. Soniwyd am adnabod y contractau sy'n debygol o gael eu gosod, ac yna tywys y cwmnïau drwy'r trefniadau gan drafod unrhyw rwystrau posib sy'n debygol o godi. Ychwanegwyd bod adolygiad yn cael ei gwblhau unwaith mae'r broses tendro wedi'i chwblhau, er mwyn asesu'r gefnogaeth a roddwyd i'r cwmnïau lleol.
- Tynnwyd sylw at y ganmoliaeth sydd wedi ei dderbyn am y broses gaffael hon.
- Ategwyd mai prif drafodaeth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi oedd sylwadau am y Gymraeg mewn perthynas â'r trefniadau caffael.

## 8. POLISI CANU'R GLOCH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r Polisi Canu'r Gloch ddiwygiedig i staff a welir yn Atodiad 1.

Bod y Polisi Canu'r Gloch i staff yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cyfle cyntaf er mwyn derbyn sylwadau ar y drefn ag argymhellir.

Cwblhau adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer galluogi Cynghorwyr i godi pryderon, gan gynnwys modd annibynnol pan fo angen, a bod yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r sefydliad *Protect* ac mewn ymgynghoriad â Chynghorwyr.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith sydd wedi ei gyflawni i adolygu Polisi a threfniadau canu'r gloch i staff y Cyngor. Datganwyd bod y polisi yn cryfhau'r trefniadau ymarferol ar gyfer adnabod achosion posib o ganu'r gloch, a'r llwybrau posib i ymdrin â'r pryderon hynny.

Adroddwyd mai'r camau nesaf, pe bai'r Polisi'n cael ei fabwysiadu, fydd gweithredu ar gynllun cyfathrebu cynhwysfawr a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r polisi ymysg holl weithlu'r Cyngor.
Cadarnhawyd y bydd rhaglen hyfforddi hefyd yn cael ei rhoi mewn lle, a fydd wedi'i theilwra i wahanol garfannau o'r gweithlu.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai cyfrifoldeb cyrff Llywodraethu pob ysgol yw i fabwysiadu polisïau cyflogaeth, gan gynnwys Polisi Canu'r Gloch. Soniwyd bod gan y Cyngor rôl wrth sicrhau fod gan ysgolion y Sir bolisi a threfniadau addas yn eu lle yn ogystal.

Amlygwyd mai Polisi Canu'r Gloch i staff sydd gerbron y Cabinet, a chyfeiriwyd at benderfyniad yng nghyfarfod y Bwrdd Ymateb diwethaf, sef yr angen i edrych ar Bolisi Canu'r Gloch i aelodau etholedig yn ogystal.
Addaswyd y penderfyniad a geisir yn sgil adborth y Pwyllgorau Craffu diweddar.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Croesawyd y Polisi hwn, a chefnogwyd yr addasiad.
- Amlygwyd y gefnogaeth gan y Bwrdd Ymateb i gael canllawiau ar wahân i gynghorwyr, a nodwyd bydd yr addasiad hwn yn cryfhau'r warchodaeth i gynghorwyr.
- Datganwyd bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi polisi model ar gyfer

Llywodraethwyr ysgolion, a bydd y Cyngor yn gofyn i bob ysgol fabwysiadu'r polisi hwnnw sy'n addas ar gyfer ysgolion.

- Soniwyd am brosesau canu'r gloch o ran y cyhoedd yn gyffredinol, ac esboniwyd bod mecanwaith mewn lle i dderbyn pryderon gan y cyhoedd. Ychwanegwyd bod gwaith pellach i'w wneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r trefniadau hynny.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r Polisi a magu diwylliant o fewn y Cyngor lle mae staff yn teimlo'n hyderus i ganu'r gloch.
- Amlygwyd y caiff y Polisi hwn ei drafod mewn sesiwn gyda rheolwyr ac arweinyddion tîm y Cyngor, ai fod yn gyfle i godi ymwybyddiaeth a gwreiddio'r diwylliant hwnnw.

## 9. CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd gan y Cabinet gymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar sail yr adolygiad presennol, amcangyfrifir mai gwerth y gefnogaeth fydd £295k.

Cymeradwywyd trosglwyddiad o £3.365 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol, i'w ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r gorwariant a wynebir gan yr adrannau.

Cymeradwywyd trosglwyddiad ariannol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o Bremiwm Treth Cyngor 2024/25, gyda throsglwyddiad gwerth £2.089 miliwn o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

**TRAFODAETH**

Datganwyd bod rhagolygon o £6.5 miliwn o orwariant gan adrannau'r Cyngor yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd, sydd yn gynnydd bychan o ragolygon Awst. Amlygwyd bod 76% o'r gorwario yn y meysydd gofal, oedolion a phlant, ac ychwanegwyd bod 6 adran yn gorwario.
Adnabuwyd bod tanwariant ar gyllidebau corfforaethol, sy'n lleihau'r rhagolygon gorwariant yn ei gyfanrwydd i £2.3 miliwn.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 sy'n egluro'r prif faterion a'r meysydd sydd â gwahaniaethau sylweddol.

Aethpwyd ymlaen i gyfeirio at Atodiad 3, sy'n nodi bod incwm treth Cyngor a'r premiwm sy'n deillio o'r dreth ar ail gartrefi ac eiddo gwag wedi'i adolygu, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Nodwyd mai'r canlyniad yw bod £2 filiwn sy'n berthnasol i Bremiwm Treth Cyngor 2024/25 i'w drosglwyddo o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

Esboniwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos ynghynt.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth yn ei gyd-destun ac adnabod y ffaith nad oes modd rhagweld llawer o'r gorwariant hwn, yn enwedig yn yr adrannau hynny sy'n ymateb i alw. Ychwanegwyd bod rhaid gwario yn unol â'r galw, a bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i gynnig y gwasanaethau hyn a gwarchod pobl Gwynedd.
- Tynnwyd sylw at realiti tan gyllido Llywodraeth Leol i bobl y Sir.
- Mynegwyd balchder y defnyddir y derminoleg 'diffyg cyllideb' yn hytrach na 'gorwario' yn yr adroddiad, sy'n adlewyrchu'r realiti. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio gwneud yr arbedion hynny, ond mai gwneud y peth iawn i bobl Gwynedd yw'r flaenoriaeth.

## 10. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD (SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2025)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2025) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf, a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd 11 Tachwedd 2025, o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
- lleihad o £7,544,000 mewn defnydd o fenthyca
- cynnydd o £2,660,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd o £103,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad o £2,387,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd o £6,364,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig (sefyllfa 30 Tachwedd 2025), a chymeradwyo'r addasiadau i'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Cyfeiriwyd at ran 3.2.2 o'r adroddiad, sy'n cynnig dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf gwerth £152 miliwn am y 3 blynedd o 2025/26 – 2027/28.

Datganwyd bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £93.7miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda gwerth £48.2miliwn sef 51% ohono wedi'i ariannu drwy grantiau penodol.
Ychwanegwyd bod £6miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28. Soniwyd bod Atodiad 2 yn cynnwys y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol.

Cyfeiriwyd at y grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor i'w denu ers yr adolygiad diwethaf, sydd i'w gweld yn rhan 3.2.4 o'r adroddiad.

Soniwyd bod gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor i'w weld yn Atodiad 4, sy'n ofyn adrodd yn y Côd Darbodus gan CIPFA. Eglurwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio efo'i bolisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Amlygwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos ynghynt.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw at y ddibyniaeth ar grantiau, a nodwyd ei fod yn amlygu'r diffyg gan Lywodraeth Cymru wrth ariannu Llywodraeth Leol.
- Mynegwyd rhwystredigaeth bod galwadau am setliadau aml flwyddyn ddim wedi eu hateb, a bod dim modd cynllunio o flaen llaw o ganlyniad i hynny.

## 11. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

**TRAFODAETH**

Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd bod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer Cyllideb 2025/26. Amlygwyd bod hyn yn gyfuniad o arbedion gwerth £100k sydd wedi'u cymeradwyo o'r newydd yn 2025, a £3.4 miliwn a gymeradwywyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Adnabuwyd bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd. Datganwyd bod yr arbedion newydd wedi eu gwahanu oddi wrth yr arbedion blaenorol, felly bod arbedion perthnasol i 2025/26 yn Atodiad 1 ac yn Atodiad 2.

Adroddwyd bod 98% o'r arbedion hanesyddol, am y cyfnod o'r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2025/26, wedi eu gwireddu. Nodwyd bod hyn yn £33.8 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion.
Amlygwyd bod cynlluniau gwerth £590 o filoedd yn parhau heb eu gwireddu, a'r

mwyafrif ohonynt yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 a ddengys bod y cynlluniau arbedion newydd gwerth £15.6 miliwn a 81% o’r arbedion eisoes wedi eu gwireddu, a 3% pellach ar drac i’w cyflawni’n amserol.
Datganwyd bod risgiau amlwg i wireddu’r arbedion mewn rhai meysydd, yn enwedig yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a’r Adran Amgylchedd.

Esboniwyd y ceir gwerth yr arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2026/27 ymlaen yn Atodiad 3.

Yn dilyn cyhoeddiad bod llawr o 4.1% ar gyfer y setliad ariannol i Lywodraeth Leol, eglurwyd nad oes rhaid brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27. Pwysleisiwyd y bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer y blynyddoedd nesaf, sy’n debygol o fod yn heriol.

Amlygwyd bod yr adroddiad wedi’i gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos ynghynt.

<u>Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:</u>

- Mynegwyd syndod gan yr Aelod Cabinet am y ffigwr o arbedion sydd wedi eu gwneud gan y Cyngor hyd yma.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 2:30yh.

**CADEIRYDD**